Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Awdurdod lleol sy'n peri pryder sylweddol

**Cyngor Sir Powys**
**Neuadd y Sir**
**Spa Road East**
**Llandrindod**
**Powys**
**LD1 5LG**

**Dyddiad yr ymweliad: Hydref 2021**

**gan**

**Estyn, Prif Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd.**

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Cyngor Sir Powys wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd diweddaraf.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi yn tynnu'r awdurdod o'r categori awdurdodau lleol sy'n peri pryder sylweddol.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

**Argymhelliad 1: Gwella safonau mewn ysgolion uwchradd, ac yn enwedig perfformiad dysgwyr mwy abl**

Ni allwn roi gwerthusiad llawn o'r deilliannau oherwydd effaith y pandemig COVID-19, a arweiniodd at atal arolygiadau o ysgolion a'r rhan fwyaf o ddarparwyr addysg eraill rhwng mis Mawrth 2020 a mis Medi 2020. Mae hyn hefyd oherwydd y diffyg data cenedlaethol cymharol ar ddeilliannau y gellir ei gymharu dros amser gan i'r pandemig achosi newidiadau i'r ffordd y dyfarnwyd cymwysterau. Effeithiodd hyn ar y rhan fwyaf o'r data arall y mae arolygwyr yn ei ystyried wrth wneud gwerthusiadau hefyd, fel presenoldeb ysgol, gwaharddiadau ysgol a chyrchfannau dysgwyr ôl-16. Er na allwn adrodd ar ddeilliannau, rydym wedi gwerthuso camau gweithredu'r awdurdod lleol i gefnogi gwella safonau mewn ysgolion uwchradd.

Yn ystod y pandemig, lansiodd yr awdurdod lleol ei 'Strategaeth Gwella Ysgolion Uwchradd Powys'. Mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar wella ansawdd darpariaeth ac arweinyddiaeth ar draws pob ysgol uwchradd. Trwy'r gwaith hwn, mae swyddogion yn cynnig cefnogaeth werthfawr i ysgolion uwchradd ar draws ystod gynhwysfawr o agweddau, fel datblygu medrau a gweithio ar y cyd. Mae cyfeiriadau addas drwy'r strategaeth at safonau a chynnydd grwpiau o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n fwy abl. Ar hyn o bryd, nid yw llawer o'r meini prawf llwyddiant yn y cynllun gweithredu ar gyfer y gwaith hwn yn ddigon penodol na mesuradwy ac o ganlyniad mae'n ei gwneud yn anodd gwerthuso effeithiolrwydd y strategaeth yn fanwl.

Ar hyd y cyfnod heriol hwn, mae swyddogion ac ymgynghorwyr gwella ysgolion wedi cydweithio ag ysgolion yn rhithiol a wyneb-yn-wyneb, lle bo'n bosibl, i roi elfennau o'r strategaeth ar waith, gan gadw gallu a lles arweinwyr ysgolion mewn cof bob amser. Mae ymgynghorwyr gwella ysgolion wedi meithrin perthynas gryfach ag ysgolion a thimau eraill ar draws y gwasanaeth. Yn benodol, mae cysylltiadau buddiol â'r tîm anghenion dysgu ychwanegol erbyn hyn. Mae hyn wedi helpu'r ymgynghorwyr gwella ysgolion i gynnig cydbwysedd o ran her a chymorth, a blaenoriaethu safonau a chynnydd yn briodol.

Mae ymgynghorwyr gwella ysgolion yn ymgysylltu'n adeiladol ag ysgolion y mae angen cymorth arnynt neu sydd yn un o gategorïau gweithgarwch dilynol Estyn. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan yn y dull amlasiantaeth peilot ochr yn ochr â phartneriaid fel Llywodraeth Cymru ac Estyn. Yn ddiweddar, mae ysgol uwchradd ym

Mhowys wedi dangos cynnydd digonol i gael ei thynnu o gategori gweithgarwch dilynol statudol.

Mae'r awdurdod lleol yn parhau i gynnig ystod eang o gyfleoedd dysgu proffesiynol difyr, y mae gan lawer ohonynt ffocws cryf ar flaenoriaethau cenedlaethol gan gynnwys y Cwricwlwm i Gymru. Mae'n rhy gynnar i werthuso effaith y maes gwaith hwn ar safonau ar draws y sector uwchradd ym Mhowys.

**Argymhelliad 2: Gwella gwerthuso, cynllunio a chydlynu darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig a disgyblion eraill y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt**

Ers yr arolygiad craidd, mae'r awdurdod lleol wedi datblygu a chyfleu gweledigaeth glir i gefnogi ei ddysgwyr ag anghenion addysgol arbennig (AAA)[1] a disgyblion eraill y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt. Bu'n llwyddiannus o ran datblygu system addysg integredig a chynhwysol lle gall dysgwyr fanteisio ar addysg arbenigol sy'n bodloni eu hanghenion, naill ai yn y brif ffrwd neu mewn darpariaeth arbenigol. Mae swyddogion yn deall eu meysydd cyfrifoldeb yn dda ac yn rhannu awch ac ymrwymiad i wella darpariaeth a deilliannau i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig.

Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu dull cydlynus, strategol i wella darpariaeth a chymorth i ysgolion ac UCDau. Mae swyddogion, staff y tîm canolog a phartneriaid yn cydweithio'n effeithiol mewn timau 'clwstwr' mewn ardaloedd daearyddol ym Mhowys. Maent yn adnabod eu hysgolion yn dda ac yn cynnig cymorth perthnasol i ysgolion, disgyblion a theuluoedd. Mae hyn wedi arwain at gyfleoedd gwell i blant a phobl ifanc ag AAA a disgyblion eraill y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt, er gwaethaf effeithiau'r pandemig.

At ei gilydd, mae uwch arweinwyr mewn ysgolion a lleoliadau yn teimlo y cânt eu cefnogi'n dda gan swyddogion anghenion dysgu ychwanegol a staff gwasanaeth canolog yr awdurdod lleol. Mae swyddogion yn cyfathrebu ag ysgolion a lleoliadau yn rheolaidd, yn llunio arweiniad a llwybrau clir, ac yn cynnig cymorth a chyngor drwy fwletinau wythnosol pwrpasol, cyfarfodydd ac adnoddau ar-lein gwerthfawr. Mae arweinwyr ysgolion yn gwerthfawrogi un pwynt mynediad yr awdurdod ar gyfer atgyfeiriadau i'r Gwasanaeth Ysgolion drwy Banel Cynhwysiant Powys a Phanel Cynhwysiant y Blynyddoedd Cynnar, yn ogystal â phlatfform a phorth dwyieithog 'Tyfu'. Mae'r platfform hwn yn adnodd defnyddiol a hygyrch dros ben, ac mae'n sicrhau bod dogfennau ac atgyfeiriadau AAA ar gael mewn un man cyfleus.

Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu arlwy gwerthfawr o ddysgu proffesiynol i ysgolion a lleoliadau. Ariannwyd ychydig o athrawon mewn ysgolion arbennig a chanolfannau arbenigol i gynnig diplomâu ôl-raddedig mewn darpariaeth AAA. Caiff yr arbenigedd hwn ei rannu'n fuddiol â darparwyr eraill. Mae staff mewn ysgolion arbennig eraill wedi ymgymryd â dysgu proffesiynol i sicrhau dealltwriaeth uwch o anghenion. Sefydlwyd rhaglen hyfforddiant ar draws y sir hefyd, fel y gall staff addysgu a staff cymorth ym mhob ysgol ddatblygu medrau yn ymwneud ag ystod eang o AAA, gan gynnwys anhwylderau ar y sbectrwm awtistig, anawsterau iaith, lleferydd a

[1] Defnyddiwyd y term anghenion addysgol arbennig (AAA) cyn cyflwyno'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg. Felly, mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyfeirio at y disgyblion hynny ag AAA, yn unol â'r argymhelliad.

chyfathrebu, anawsterau dysgu penodol, ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae'r awdurdod lleol yn dechrau datblygu casgliad o dystiolaeth yn ymwneud ag arfer effeithiol i gefnogi disgyblion ag AAA, ac mae'n ei ddefnyddio i gynorthwyo ysgolion ar draws y rhanbarth.

Gwna'r awdurdod lleol ddefnydd effeithiol o ystod o ddata a gwybodaeth yn rhan o werthuso gwasanaethau. Mae swyddogion yn myfyrio ar strategaethau sydd wedi gweithio'n dda a'r rhai a fu'n llai llwyddiannus o ran eu heffaith ar ddysgwyr. Er enghraifft, ar ôl digwyddiad hyfforddiant ymddygiad cadarnhaol diweddar, mae bron pob un o'r cynrychiolwyr wedi gwneud newidiadau i'w harfer yn uniongyrchol o ganlyniad i'r dysgu proffesiynol. Dywed llawer o ysgolion a lleoliadau eu bod eisoes wedi dechrau gweld effaith gadarnhaol ar arfer, gan gynnwys mwy o gysondeb yn nulliau staff, yn ogystal â gostyngiad mewn ymddygiad heriol a gwaharddiadau.

**Argymhelliad 3: Gwella cysondeb ac effaith uwch arweinwyr wrth wella ansawdd gwasanaethau addysg a pharhau i gryfhau'r trylwyrdeb, y craffu a'r her mewn perthynas â pherfformiad gwasanaethau'r awdurdod**

Mae uwch arweinwyr yn yr awdurdod yn cynnig ymdeimlad clir o gyfeiriad i wasanaethau addysg. Mae'r Prif Weithredwr, yr Arweinydd, Deiliad y Portffolio Addysg a'r Cyfarwyddwr Addysg wedi cynnig arweinyddiaeth gadarn ac wedi sicrhau newid cadarnhaol nodedig ar gyfer addysg ym Mhowys. Mae eu heffaith o ran gwella ansawdd gwasanaethau addysg a'u trylwyrdeb, craffu a her o ran perfformiad gwasanaethau'r awdurdod yn dda.

Ers yr arolygiad, mae'r awdurdod wedi cynnal ei fomentwm o ran mynd i'r afael â'r argymhellion, er gwaethaf yr heriau ychwanegol a ddaeth yn sgil y pandemig. At ei gilydd, mae arweinwyr wedi cydweithio'n dda â rhanddeiliaid a phartneriaid i wneud cynnydd cryf yn erbyn yr holl argymhellion.

Bu datblygiadau cadarnhaol mewn strwythurau arweinyddiaeth yn yr awdurdod lleol, gan gynnwys penodiadau allweddol i'r gwasanaeth addysg. Yn ddiweddar, penodwyd y PennaethAddysg dros dro i swydd barhaol Cyfarwyddwr Addysg. Mae'n cynnig ymdeimlad clir o gyfeiriad i waith y gwasanaeth addysg ac mae wedi meithrin perthynas waith gref ag ysgolion. Mae hyn wedi helpu cyflymu gwelliant mewn meysydd allweddol dan amgylchiadau anodd.

Mae'r awdurdod yn parhau i ganolbwyntio ar gynyddu gallu arweinwyr yn ei wasanaeth addysg, gan gynnwys drwy gymorth gan ymgynghorwyr allanol. Mae'r Prif Weithredwr a Deiliad y Portffolio Addysg yn awyddus i barhau i drosglwyddo gwybodaeth a medrau gan yr ymgynghorwyr allanol i swyddogion yn yr awdurdod yn y tymor byr, er mwyn cryfhau gallu mewnol ymhellach i sicrhau cynaliadwyedd gwelliannau.

Mae mwy o arweinyddiaeth ddosranedig yn y gwasanaeth addysg, gan gynnwys cydweithio gwell o fewn y gwasanaeth ac ag adrannau eraill yr awdurdod lleol. Mae hyn wedi galluogi swyddogion i gynyddu eu gallu arweinyddiaeth a'u perchenogaeth ar gamau gweithredu a dulliau i fynd i'r afael â meysydd sy'n peri pryder. Er enghraifft, mae swyddogion nad ydynt yn uwch arweinwyr yn cael cyfleoedd i gyflwyno gwybodaeth a thystiolaeth i'r Pwyllgor Craffu ar Ddysgu a Sgiliau ac ateb cwestiynau am eu meysydd cyfrifoldeb.

Yn gyffredinol, mae ansawdd, cywirdeb a defnyddioldeb yr adroddiadau a'r briffiau a roddir gan swyddogion i'r Pwyllgor Craffu ar Ddysgu a Sgiliau wedi gwella. Erbyn hyn, mae gan arweinwyr drosolwg gwell ar yr holl wasanaethau ar draws yr awdurdod lleol, a gallant gymharu a herio gwasanaethau'n fwy effeithiol. Mae'r broses graffu'n fwy cadarn erbyn hyn, ac mae aelodau'n cwestiynu ac yn dadansoddi penderfyniadau'n fanylach o lawer. Mae trafodaethau'r pwyllgor yn berthnasol ac yn cynnig her addas, ac yn craffu'n briodol ar waith ac uchelgeisiau'r awdurdod lleol.

Mae'r rhyngweithio rhwng y Pwyllgor Craffu ar Ddysgu a Sgiliau, Deiliad y Portffolio Addysg, a'r gwasanaeth addysg yn dda. Gyda'i gilydd, maent yn gweithio'n dda ac, o ganlyniad, mae craffu a her fwy effeithiol o ran perfformiad gwasanaethau'r awdurdod. Mae Deiliad y Portffolio Addysg yn frwd o blaid gwella addysg yn yr awdurdod ac yn gatalydd cryf ar gyfer hybu newid cadarnhaol. Pan fydd angen, er enghraifft o ran trawsnewid ysgolion, mae'r Cabinet wedi gwneud penderfyniadau anodd yn brydlon ar ôl proses drylwyr ac agored o ystyried tystiolaeth, cyngor ac ymgymryd ag ymgynghori.

**Argymhelliad 4: Sicrhau bod trefniadaeth y ddarpariaeth ar gyfer addysg nas cynhelir, addysg ôl-16, addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg uwchradd yn bodloni anghenion plant a phobl ifanc Powys**

Mae'r awdurdod lleol wedi cydweithio'n dda ag ystod o randdeiliaid i ddatblygu gweledigaeth bwrpasol ac uchelgeisiol i sicrhau bod ei ddarpariaeth addysg yn bodloni anghenion pob dysgwr, nawr ac yn y dyfodol. Mae'r weledigaeth yn darparu sylfaen i Strategaeth Trawsnewid Addysg Powys. Strategaeth deng mlynedd yw hon, sy'n cynnwys nodau ac amcanion strategol allweddol i wella hawliau a chyfleoedd dysgwyr, darpariaeth cyfrwng Cymraeg, darpariaeth ADY a darpariaeth ôl-16.

Erbyn hyn, mae strwythur llywodraethu cryf o ran yr agenda trawsnewid yn sicrhau y gall uwch arweinwyr, Aelodau'r Cyngor a swyddogion eraill fanteisio ar ystod ddefnyddiol o wybodaeth a data i wneud penderfyniadau strategol gwybodus yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion. Mae cyfathrebu effeithiol ar draws adrannau'r awdurdod bellach yn sicrhau bod gan swyddogion ymwybyddiaeth gref o amcanion strategol allweddol y strategaeth trawsnewid. Mae hyn yn eu galluogi i gyfrannu'n dda at gefnogi gwaith y tîm trawsnewid addysg a gweithgorau eraill drwy gynnig cyngor ac arbenigedd. Er enghraifft, mae'r Tîm Cymraeg mewn Addysg wedi cydweithio'n dda â swyddogion o'r timau corfforaethol a thrawsnewid addysg, adnoddau dynol, gwasanaethau trafnidiaeth, ac iechyd a diogelwch i gynllunio prosiect peilot trochi yn y Gymraeg i gefnogi dysgwyr. Ers yr arolygiad craidd, mae aelodau'r Cabinet wedi symud cynigion trefniadaeth ysgolion ymlaen yn llwyddiannus ar ôl y broses ymgynghori, sy'n adlewyrchu eu hymrwymiad i'r strategaeth trawsnewid. Hefyd, mae aelodau'r Pwyllgor Craffu ar Ddysgu a Sgiliau wedi cynnig her addas, yn ôl y gofyn, er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'r Cabinet yn gadarn.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r awdurdod lleol wedi cychwyn ar raglen uchelgeisiol o gynigion trefniadaeth ysgolion wedi'i seilio ar y Strategaeth Trawsnewid Addysg. Mae'r cynigion hyn wedi cynnwys agor ysgol pob-oed newydd, uno nifer o ysgolion cynradd a chau ysgolion bach gwledig, yn ogystal â newidiadau i gategori iaith ysgolion. Mae swyddogion ac aelodau perthnasol o'r Cyngor wedi ymgysylltu â rhieni, disgyblion, staff a llywodraethwyr i drafod y cynigion a lleddfu pryderon. Maent

wedi rhoi ystyriaeth briodol i sensitifedd a safbwyntiau gwrthdrawiadol rhanddeiliaid allweddol yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Mae'r awdurdod lleol hefyd yn cydweithio â chynrychiolwyr o ysgolion uwchradd a rhanddeiliaid eraill i gyd-gynhyrchu darpariaeth ôl-16 bwrpasol i wella hawliau dysgwyr ar draws Powys. Er mai dim ond megis dechrau y mae hyn, mae'r awdurdod lleol yn cydweithio â phartneriaid mewn colegau addysg bellach, yn ogystal ag ysgolion a cholegau mewn awdurdodau lleol cyfagos, i gynnig hawl academaidd a galwedigaethol ddwyieithog, bwrpasol i bob dysgwr, ble bynnag y maent.

Yn ddiweddar, mae'r awdurdod lleol wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori ar Strategaeth y Gymraeg mewn Addysg, lle mae'n amlinellu ei gynlluniau i ddatblygu darpariaeth addysg Gymraeg dros y deng mlynedd nesaf. Mae'r strategaeth hon yn alinio'n dda â strategaeth yr awdurdod lleol i drawsnewid addysg ym Mhowys a'i weledigaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg. Ei nod yw sicrhau y gall dysgwyr ym mhob un o'r 13 ardal yn yr awdurdod lleol fanteisio'n briodol ar addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog o'u geni. Erbyn hyn, mae gan yr awdurdod lleol ddealltwriaeth well o ba ardaloedd y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i helpu i fodloni'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg a sut i sbarduno twf yn nefnydd yr iaith dros amser. Mae'r cynllun yn cynnwys sefydlu darpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer y blynyddoedd cynnar, ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg, a chynorthwyo dysgwyr i ddatblygu eu medrau Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Hefyd, mae'r awdurdod lleol wedi cydnabod yr angen i ddatblygu'r gweithlu i allu cynorthwyo dysgwyr drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hefyd yn cydnabod yr angen i sefydlu darpariaeth trochi o ansawdd uchel i gynorthwyo dysgwyr sy'n symud i Bowys nad ydynt yn siarad Cymraeg, a'r rhai sy'n dewis symud i ysgol cyfrwng Cymraeg o ysgol neu ffrwd cyfrwng Saesneg. Hefyd, mae'r awdurdod lleol wedi adolygu ei ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, ac mae ganddo gynlluniau i wella'r gwasanaethau cyfredol sydd ar gael i ddysgwyr ledled Powys.

**Argymhelliad 5: Parhau i wella ansawdd rheolaeth ariannol mewn ysgolion a chymryd camau priodol i fynd i'r afael ag ysgolion â diffyg sylweddol yn eu cyllidebau**

Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd da i gryfhau trefniadau rheolaeth ariannol ers yr arolygiad. Mae ffocws ar gyfathrebu a chydweithredu clir, rheolaidd a chyson, ac adeiladu ar ddull y 'tîm o amgylchedd yr ysgol', wedi gwella'r berthynas rhwng uwch arweinwyr, staff cyllid ac ysgolion. Mae hyn yn cynnwys staff cyllid yn mynychu briffiau rheolaidd i ysgolion yn ystod y pandemig i roi cyngor ac arweiniad ar ffynonellau cyllid ychwanegol ac ateb cwestiynau. Mae'r awdurdod wedi paratoi cyfres o nodiadau arweiniad hefyd ar gyfer pynciau fel treth ar werth (TAW), cymhwysedd am grantiau, a chodau gwariant i ysgolion. Caiff data meincnodi'r awdurdod ei groesawu gan ysgolion, ac mae swyddogion yn cynllunio rhagor o ddatblygiadau i gefnogi'r broses o bennu'r gyllideb ar gyfer 2022-2023.

Mae swyddogion yr awdurdod lleol yn cyflwyno hyfforddiant i benaethiaid, llywodraethwyr a staff ysgolion mewn sesiynau ar-lein byrrach sydd â mwy o ffocws, sy'n cyd-fynd â'r diwrnod ysgol. Mae'r awdurdod yn cydnabod yr angen i ddatblygu hyfforddiant rheolaeth ariannol ymhellach i gadeiryddion cyrff llywodraethol a'r rhai sydd ar bwyllgorau cyllid ysgolion.

Mae gweithgorau cydweithredol wedi adolygu sut i gryfhau trefniadau ymhellach. Er enghraifft, mae’r awdurdod lleol yn datblygu model rheolwr busnes clwstwr i gynnig cymorth ac arweiniad i ysgolion, ac mae hefyd yn ystyried y fformiwlâu cyllid i gefnogi dosbarthu’r gyllideb yn deg i ysgolion. Mae’r awdurdod yn cymryd amser i asesu’n ofalus a yw unrhyw newidiadau a wneir yn gynaliadwy.

Cydweithiodd ysgolion a swyddogion â’i gilydd i lunio fformiwla ariannu newydd ar gyfer y sector cynradd. Ar hyn o bryd, maent yn ymgynghori ar y fformiwla ariannu arfaethedig ac yn bwriadu ei defnyddio o fis Ebrill 2022 ymlaen. Ar yr un pryd, mae gwaith wedi mynd rhagddo i adolygu’r fformiwla ariannu ar gyfer ysgolion uwchradd ac arbennig, ochr yn ochr â’r cynlluniau trawsnewid.

Mae’r awdurdod yn cydnabod bod balansau cronnus ysgolion yn peri pryder o hyd. Fodd bynnag, mae ysgolion yn cydweithio’n dda â swyddogion i fantoli cyllidebau yn ystod y flwyddyn ac atal diffygion ariannol cronnus rhag tyfu. Mae monitro a diweddaru cyllidebau’n fisol, ynghyd â phroses glir, ddealledig i uwchgyfeirio’n gyflym at uwch reolwyr, yn golygu y caiff pryderon eu nodi a’u hystyried yn gyflym. Mae’r awdurdod yn defnyddio hysbysiadau rhybudd, cynlluniau adfer a thynnu dirprwyo ariannol yn briodol i gryfhau rheolaeth ariannol mewn ysgolion sy’n peri’r pryder mwyaf.

**Hawlfraint y Goron 2021: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**